Swansea University
Prifysgol Abertawe

**Disgrifiad Swydd: Swyddog Prosiect**

| | |
|---|---|
| **Cyfadran/Cyfarwyddiaeth/Maes Gwasanaeth** | Gwyddor Data Poblogaethau |
| **Teitl y Swydd:** | Meistr Scrum |
| **Adran/Pwnc:** | *Meddygaeth* |
| **Cyflog:** | Gradd 9: £46,735 – £55,755 y flwyddyn ynghyd â buddion Pensiwn USS |
| **Oriau gwaith:** | Amser llawn, 35 awr (ond caiff ceisiadau i weithio'n rhan-amser neu rannu swydd eu hystyried) |
| **Nifer y Swyddi:** | 1 |
| **Contract:** | Swydd am gyfnod penodol yw hon, tan fis Mawrth 2026 |
| **Lleoliad:** | Bydd deiliad y swydd hon yn gweithio ar Gampws Parc Singleton |

| | |
|---|---|
| **Prif Ddiben y Swydd** | Er mwyn cyflawni ei huchelgais cynaliadwy o fod ymysg 30 o brifysgolion gorau'r DU, mae angen gweithlu gwasanaethau proffesiynol ar Brifysgol Abertawe â'r sgiliau amrywiol i sicrhau y gall gyflawni rhagoriaeth drwy systemau a phrosesau effeithlon ac effeithiol sy'n manteisio ar ddatblygiadau technolegol.<br><br>Mae SeRP (Secure eResearch Platform) yn set dechnoleg a ddatblygwyd gan y grŵp Gwyddor Data Poblogaethau yn Ysgol Feddygaeth Prifysgol Abertawe. Mae Prifysgol Abertawe'n cydweithio â sefydliadau ledled y DU ac yn fyd-eang, i rannu gwybodaeth a phrofiad ynghylch y platfform. Mae SeRP yn hwyluso'r gwaith o storio a rhannu setiau data ymchwil yn ddiogel at ddiben cynorthwyo mewn gweithgarwch ymchwil.<br><br>Mae'r tîm technegol yn y Grŵp Gwyddor Data Poblogaethau'n datblygu atebion i ategu gweithgarwch ymchwil a gwella mynediad at setiau data ymchwil. Cyflawnir hyn drwy archwilio'r cyfleoedd diweddaraf a gynigir gan gynhyrchion ffynhonnell agored a chynhyrchion sydd ar gael gan werthwyr, gyda thîm datblygu sy'n canolbwyntio ar ddarparu atebion i ddiwallu anghenion y gymuned ymchwil yn y DU ac yn fyd-eang.<br><br>Diben rôl y Meistr Scrum yw arwain y tîm datblygu drwy'r dirwedd datblygu Ystwyth, er mwyn sicrhau y datblygir cynhyrchion meddalwedd priodol ac addas i'r diben sy'n bodloni'r meini prawf ansawdd gofynnol. |
| **Dyletswyddau Cyffredinol** | 1. Arwain a hyfforddi'r Tîm Scrum ar sut i ddefnyddio arferion ac egwyddorion Ystwyth i ddarparu cynhyrchion a gwasanaethau o ansawdd uchel i'n cydweithredwyr.<br>2. Arwain y tîm ar hunan-drefnu i lenwi'r bylchau bwriadol a adawyd yn y fframweithiau Ystwyth/Scrum.<br>3. Mentora'r tîm yn dechnegol ar ymagweddau datblygu technoleg a meddalwedd.<br>4. Hwyluso seremonïau ystwyth, e.e. mireinio ôl-groniad cynnyrch, blaengynllunio, cynllunio, cyfarfodydd adolygu cynnydd dyddiol, adolygiadau sbrint, sesiynau myfyrio.<br>5. Cael gwared ar rwystrau neu arwain y tîm i gael gwared ar rwystrau drwy ddod o hyd i'r personél cywir i ddileu'r rhwystr.<br>6. Meithrin amgylchedd ymddiriedus a diogel lle gellir codi problemau heb ofni cael y bai, dial neu gael eu barnu, gyda phwyslais ar wella a datrys problemau.<br>7. Cefnogi ac addysgu perchennog y cynnyrch, yn enwedig o ran trin a chynnal ôl-groniad y cynnyrch.<br>8. Arwain y tîm i berfformio ar lefel uchel drwy adnabod meysydd cryfder a gwelliant a defnyddio technegau hyfforddi a datblygu priodol.<br>9. Hyfforddi'r tîm Scrum mewn hunan-drefnu, sgiliau traws-swyddogaethol, gwybodaeth arbenigol a chyfathrebu'n effeithiol, yn fewnol ac yn allanol, gan weithio yn y tîm.<br>10. Hwyluso a chefnogi pob digwyddiad scrum: Cynllunio Sbrint, y Scrum Dyddiol, Adolygiadau Sbrint, a sesiynau Myfyrio Sbrint<br>11. Ffurfweddu a chynnal offeryn rheoli prosiect ystwyth (JIRA, etc).<br>12. Herio a gwella gweithrediad y tîm, gan wella eu perfformiad a'u galluoedd.<br>13. Bod yn gyfrifol am reoli ôl-groniad cynnyrch effeithiol.<br>14. Datblygu polisïau a gweithdrefnau adrannol priodol yn unol â'r ymagwedd datblygu meddalwedd. |

| | |
|---|---|
| | 15. Bod yn ymwybodol o newidiadau mewn methodolegau datblygu meddalwedd a sicrhau bod yr adran yn aros ar flaen y gad o ran ymagweddau datblygu meddalwedd.<br>16. Arwain ar werthuso technolegau datblygol sy'n ofynnol i ategu'r ymagweddau datblygu meddalwedd.<br>17. Cyfrannu'n llawn at bolisïau Galluogi Perfformiad ac Iaith Gymraeg y Brifysgol<br>18. Hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth mewn arferion gwaith a chynnal perthnasoedd gweithio cadarnhaol.<br>19. Arwain wrth wella perfformiad iechyd a diogelwch yn barhaus drwy ddealltwriaeth dda o'r proffil risg a thrwy ddatblygu diwylliant cadarnhaol o ran iechyd a diogelwch.<br>20. Unrhyw ddyletswyddau eraill y gellir eu disgwyl o fewn diffiniad y radd yn unol â chyfarwyddyd Pennaeth y Coleg/Adran neu gynrychiolydd a enwebwyd.<br>21. Sicrhau bod rheoli risg yn rhan annatod o unrhyw broses benderfynu, drwy sicrhau cydymffurfiaeth â Pholisi Rheoli Risg y Brifysgol |
| **Gwerthoedd Arweinyddiaeth** | Mae'r holl feysydd Gwasanaethau Proffesiynol ym Mhrifysgol Abertawe yn gweithredu yn unol â chyfres ddiffiniedig o Werthoedd Craidd: Gwerthoedd Gwasanaethau Proffesiynol a disgwylir i bawb ddangos ymrwymiad i'r gwerthoedd hyn o'r adeg cyflwyno cais am swydd i gyflawni eu rolau o ddydd i ddydd. Mae ymrwymiad i'n gwerthoedd ym Mhrifysgol Abertawe yn ein cefnogi wrth hyrwyddo cydraddoldeb ac wrth werthfawrogi amrywiaeth er mwyn defnyddio'r holl ddoniau sydd gennym.<br><br>Yn ogystal, byddwch chi'n gweithredu yn unol â set ddiffiniedig o Werthoedd Arweinyddiaeth:<br><br>**Rydym yn Broffesiynol**<br>Rydym yn datblygu'n bersonol ac yn datblygu ein timau drwy ddatblygiad proffesiynol parhaus, ac yn defnyddio adborth i wella. Rydym yn creu diwylliant sy'n cyflawni canlyniadau llwyddiannus drwy bobl, gan gefnogi, datblygu a herio ein timau i lwyddo. Rydym yn cynnwys ein pobl wrth ddatblygu gweledigaeth ar gyfer y dyfodol a galluogi arloesedd a newid, gan wella perfformiad y Brifysgol, timau ac unigolion.<br><br>**Rydym yn Cydweithio**<br>Rydym yn galluogi ein timau i weithio ar y cyd ac ar draws swyddogaethau i gyflawni canlyniadau llwyddiannus sy'n rhagori ar anghenion a disgwyliadau ein cwsmeriaid. Rydym yn gyfrifol am greu amgylcheddau sy'n dangos cydraddoldeb ac yn meithrin ymddiriedaeth, parch a her. Rydym yn atebol am ddarparu eglurder a chyfeiriad, gan gyfleu'r "darlun mawr" a manteisio ar syniadau a chyfleoedd i wireddu gweledigaeth y Brifysgol.<br><br>**Rydym yn ofalgar**<br>Rydym yn creu amgylcheddau sy'n nodi ac yn deall anghenion Cymuned y Brifysgol (ein myfyrwyr, ein cydweithwyr, ein partneriaid allanol a'r cyhoedd), gan roi blaenoriaeth i ddiwallu'r rhain. Rydym yn ysgogi ac yn ysbrydoli ein timau i ddarparu'r safonau uchaf o ofal personol ac, wrth wneud hynny, rydym yn cynnal brand Prifysgol Abertawe. |
| **Manyleb Person** | **Gwerthoedd Arweinyddiaeth:**<br>1. Tystiolaeth o greu diwylliant sy'n cyflawni canlyniadau llwyddiannus drwy bobl, gan ddatblygu a herio timau i lwyddo, ac ymfalchïo mewn darparu gwasanaethau ac atebion proffesiynol.<br>2. Y gallu i rymuso timau i weithio gyda'i gilydd ac ar draws swyddogaethau i gyflawni canlyniadau llwyddiannus sy'n rhagori ar anghenion a disgwyliadau cwsmeriaid, a chreu amgylcheddau sy'n dangos cydraddoldeb, yn meithrin ymddiriedaeth, parch a her.<br>3. Profiad amlwg o greu amgylcheddau sy'n nodi ac yn deall anghenion y cwsmer, gan roi blaenoriaeth i ddiwallu'r rhain, ac ysgogi ac ysbrydoli timau i ddarparu'r safonau uchaf o ofal personol.<br><br>Cymwysterau/Sgiliau |

| | |
|---|---|
| | 4. Gradd neu gymhwyster cyfwerth mewn disgyblaeth wyddonol sy'n berthnasol i gyfrifiadura gwyddonol neu brofiad cyfwerth.<br><br>5. Gwybodaeth am fframwaith neu ddull ystwyth (h.y. Scrum Kaban) neu ddealltwriaeth o fodelau cylch bywyd datblygu meddalwedd yn ogystal â gwybodaeth fanwl am egwyddorion ac arferion rheolaeth prosiect draddodiadol.<br><br>**Profiad**<br><br>6. Profiad o chwarae rôl y Meistr Scrum ar gyfer tîm datblygu meddalwedd a oedd yn defnyddio egwyddorion, arferion a damcaniaeth Scrum yn ddiwyd.<br><br>7. Arddangos a hyrwyddo gwerthoedd ac egwyddorion Ystwyth<br><br>8. Profiad o weithio fel rhan o dîm TG technegol hynod fedrus.<br><br>9. Profiad o ddatblygu neu arwain tîm datblygu sy'n darparu atebion i ddefnyddwyr arbenigol mewn amgylchedd ymchwil.<br><br>10. Profiad perthnasol diweddar o gynllunio, datblygu, profi, dogfennu a gweithredu systemau TG.<br><br>11. Lefel uchel o hunangymhelliant a'r gallu i weithio heb lawer o oruchwyliaeth.<br><br>12. Y gallu i fentora cydweithwyr a gweithio'n effeithiol mewn timau ac ar eu traws.<br><br>13. Sgiliau trefnu a rheoli amser ardderchog.<br><br>14. Gallu datrys problemau mewn modd digyffro, rhesymegol a dadansoddol.<br><br>**Meini Prawf Dymunol**<br><br>15. Y gallu i gyfathrebu yn Gymraeg.<br><br>16. Y gallu i weithredu fel mentor technegol dwfn i'r tîm datblygu.<br><br>17. Profiad blaenorol fel prif ddatblygwr yn gweithio ar ddatblygu atebion ar gyfer ymchwil gofal iechyd.<br><br>18. Sgiliau cyfathrebu a mentora rhagorol. |
| **Lefel Iaith Gymraeg** | Lefel 1 – 'ychydig' – ynganu geiriau Cymraeg Gallu ateb y ffôn yn Gymraeg (bore da/pnawn da). Gallu defnyddio geiriau ac ymadroddion pob dydd syml iawn (diolch, os gwelwch yn dda, esgusodwch fi.). Gallwch gyrraedd Lefel 1 drwy gwblhau cwrs hyfforddiant un awr.<br><br>Am ragor o wybodaeth am Lefelau'r Iaith Gymraeg, gweler tudalen we'r Asesiad o Sgiliau Iaith Gymraeg, sydd ar gael yma. |
| **Gwybodaeth Ychwanegol** | Ymholiadau anffurfiol: emma@chi.abertawe.ac.uk |

Swansea University
Prifysgol Abertawe

Athena SWAN
Silver Award
ECU GENDER CHARTER

Stonewall
CYMRU
DIVERSITY CHAMPION

HR EXCELLENCE IN RESEARCH